HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# ADRODDIAD GWERTH CYMDEITHASOL 2016/17




*A look back at where we started our Social Value Journey*

## Tabl Cynnwys

**Cyflwyniad gan y Comisiynydd** ........ 2

Crynodeb Gweithredol ........ 3

Ein Cyflenwyr a'n Darparwyr ........ 3

Lle gwariwyd yr arian ........ 5

Cefndir ........ 6

Gogledd Cymru ........ 6

Gwerth Cymdeithasol, CHThGC a HGC ........ 6

Cyd-destun a Methodoleg ........ 7

***Cyd-destun*** ........ 7

***Methodoleg*** ........ 7

Casglwyd data drwy ddwy sianel: ........ 7

Dadansoddiad data'r Gadwyn Gyflenwi ........ 7

Arolwg y Gadwyn Gyflenwi ........ 7

Dadansoddiad Gwariant a Chyflenwyr CHThGC a HGC ........ 8

Lle gwariwyd yr arian ........ 8

Cyflenwyr a Darparwyr ........ 10

Gwariant gyda 50 Uchaf Sefydliadau Cymru yn 2016/17 ........ 13

Arolwg y Gadwyn Gyflenwi ........ 14

Edrych yn ôl ar 2017 ........ 14

Atodiad 1 – Astudiaethau Achos Gwerth Cymdeithasol ........ 15

## Cyflwyniad gan y Comisiynydd

Fy ngweledigaeth yw arwain a gweithio gyda sector cyhoeddus Gogledd Cymru wrth amgyffred gwerth cymdeithasol. Mae ynghylch creu economi leol well wedi'i chryfhau, creu twf economaidd, swyddi a chyfleoedd i bobl leol.



Rwy'n falch o gyflwyno ein Hadroddiad Gwerth Cymdeithasol ar gyfer 2016/17. Nod yr adroddiad yw sefydlu ein sylfaen gwerth cymdeithasol ac arddangos y gwaith gwych sydd wedi bod yn digwydd wrth ymgorffori llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ledled ein cadwyni cyflenwi. Gan symud ymlaen, rydym yn anelu i hyrwyddo hyd yn oed fwy o arloesedd yn y broses gomisiynu a chaffael a chyflawni gwell canlyniadau i bobl a chymunedau Gogledd Cymru.

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru rwyf wedi fy ethol gan y cyhoedd i osod y cyfeiriad strategol ar gyfer plismona. Mae rhan o fy rôl yn cynnwys comisiynu gwasanaethau un ai o'r gwasanaeth heddlu'n uniongyrchol neu gan bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol er mwyn cynorthwyo cyflwyno fy nghynllun heddlu a throsedd i Gymru.

Fel rhan o hyn rydym eisiau sicrhau ein bod yn cael y budd ariannol a chymdeithasol mwyaf i bobl Gogledd Cymru. Rydym yn ymroddedig i egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yr ydym yn ei amgyffred o fewn ein Polisi Gwerth Cymdeithasol.

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn rhoi cyfrifoldeb ar y Comisiynwyr i gadw cronfa'r heddlu, gosod a rheoli'r gyllideb ar gyfer plismona, gwneud grantiau a mynd i gytundebau ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau. Yn ychwanegol at hyn mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 yn grymuso Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i gomisiynu gwasanaethau lleol sydd â'r bwriad o gynorthwyo dioddefwyr, neu dystion, unigolion eraill a effeithir gan droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Bob blwyddyn mae'r Sector Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru yn gwario miliynau o bunnoedd ar ddiogelu gwasanaethau. Rydym yn gwario oddeutu £30M y flwyddyn ar nwyddau traul. Fy nod yw defnyddio hyn lle bynnag bo'n bosibl i wella llesiant cymunedau ledled Gogledd Cymru.

Rydym yn cydnabod mai hwn yw ein Hadroddiad Gwerth Cymdeithasol cyntaf, ond nid hwn fydd y diwethaf. Rydym yn gobeithio dod â budd sylweddol i Ogledd Cymru a'i drigolion drwy gyflwyno elw cymdeithasol ar bob punt a wariwn, lle mae'n bosibl.



Arfon Jones Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

## Crynodeb Gweithredol

Ebrill 2016 hyd Fawrth 2017

Hwn yw'r Adroddiad Gwerth Cymdeithasol cyntaf a grëwyd ar ran Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) a Heddlu Gogledd Cymru (HGC). Ei fwriad yw gwneud hwn yn ddiweddariad blynyddol rheolaidd wrth i'r Sefydliad barhau ei daith Gwerth Cymdeithasol.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith a ymgymerwyd rhwng misoedd Chwefror a Rhagfyr 2017. Mae wedi'i ddylunio i roi diweddariad a safle sylfaenol ar gyfer HGC a SCHTh drwy edrych ar Wariant Caffael, dadansoddiad y Gadwyn Gyflenwyr a Gwerth Cymdeithasol.


Mae'r gwaith wedi'i fframio gan Fframwaith Gwerth Cymdeithasol Gwerth Cymdeithasol Cymru SCHTh, gyda'r crynodeb gweithredol yn crynhoi safle diweddaraf HGC a SCHTh.

Mae'r ffigyrau a gyflwynwyd yn cynnwys cymysgedd o ddata gwirioneddol a darddwyd drwy'r dadansoddiad cadwyn gyflenwi a ffigyrau amcangyfrifedig gan ddefnyddio canfyddiadau'r arolwg fel procsis.

Rydym yn gobeithio bydd gosod Gwerth Cymdeithasol i'r prosesau comisiynu a chaffael yn dod â budd sylweddol i Ogledd Cymru a'i drigolion drwy gyflwyno elw cymdeithasol ar bob punt a wariwn, lle bo'n bosibl.

### *Ein Cyflenwyr a'n Darparwyr*


Mae **52%** o'r sefydliadau yr ydym yn gwario arian â hwy yn seiliedig yng Nghymru a'r Gogledd Orllewin.




***Drwy gefnogi cyflenwyr Cymreig, mae HGC a SCHTh yn arddangos eu hymroddiad i Werth Cymdeithasol drwy fuddsoddi mewn cymunedau Cymreig*.**

| SUPPLIERS | | |
|---|---|---|
| **AREA** | **%** | **Number** |
| ADDRESS UNKNOWN | 2% | 23 |
| EUROPE - other | 0% | 4 |
| EAST ANGLIA | 1% | 19 |
| LONDON CENTRAL | 8% | 108 |
| MIDLANDS - East | 5% | 75 |
| MIDLANDS - West | 8% | 105 |
| IRELAND (North & South) | 0% | 6 |
| NORTH EAST | 1% | 13 |
| NORTH WEST | 15% | 208 |
| SCOTLAND | 2% | 25 |
| SOUTH EAST | 12% | 163 |
| SOUTH WEST | 4% | 61 |
| USA | 0% | 2 |
| WALES | 37% | 514 |
| YORKSHIRE | 5% | 65 |
| **Grand Total** | | **1391** |

| SPEND | | |
|---|---|---|
| **AREA** | **%** | **£** |
| ADDRESS UNKNOWN | 0% | £4,265.80 |
| EUROPE - Other | 0% | £29,958.93 |
| IRELAND -(North & South) | 0% | £7,753.13 |
| EAST ANGLIA | 0% | £94,812.09 |
| LONDON CENTRAL | 16% | £4,798,698.15 |
| MIDLANDS - East | 5% | £1,469,198.63 |
| MIDLANDS - West | 6% | £1,789,386.42 |
| NORTH EAST | 2% | £701,339.83 |
| NORTH WEST | 14% | £4,117,879.23 |
| SCOTLAND | 0% | £73,641.30 |
| SOUTH EAST | 29% | £8,539,354.83 |
| SOUTH WEST | 8% | £2,430,749.83 |
| USA | 0% | £745.40 |
| WALES | 11% | £3,299,045.94 |
| YORKSHIRE | 7% | £1,983,817.04 |
| **Grand Total** | | **£29,340,646.55** |




### *Lle gwariwyd yr arian*

Mewn arolwg o'n cadwyn gyflenwi gwnaethom holi cwmnïau i rannu eu profiadau o gyflwyno gwerth cymdeithasol. O'r cwmnïau a ymatebodd, roedd 40% yn fentrau bach a chanolig, roedd 80% o Gymru, a 60% o Ogledd Cymru.

**Gweithio gyda Sefydliadau o'r un anian**

Roedd 40% o'r Sefydliad a wnaeth ymateb i'r arolwg yn barod yn cyflwyno rhyw fath o werth cymdeithasol a oedd yn cynnwys

- ymgysylltiad cymunedol gyda Heddlu Gogledd Cymru ar brosiectau cymunedol
- noddi chwaraeon cymunedol a grŵp ysgolion
- rhoi deunyddiau adeiladu dros ben i brosiectau cymunedol

**Rhai ffeithiau a ffigyrau o'u hymatebion oedd**

- Elate Construction - 85% o wariant gyda chyflenwyr ac isgontractwyr o fewn Gogledd Cymru, cyflogi 100% o'u gweithlu o Ogledd Cymru, talu Cyflog Byw i 100% o'u staff ac wedi creu un swydd ac un brentisiaeth o fewn y 12 mis diwethaf.
- gwariodd CGI dros £100,000 gyda chyflenwyr ac isgontractwyr o fewn Gogledd Cymru a thros £200,000 gyda mentrau bach a chanolig o fewn Gogledd Cymru

## Cefndir

### *Gogledd Cymru*

Mae gan Ogledd Cymru un o'r tirweddau mwyaf grymus ym Mhrydain gyfan. Mae'n cynnwys traethau, afonydd, mynyddoedd, llynnoedd, rhaeadrau a phobl sy'n angerddol am eu diwylliant, cerddoriaeth a hanes. Tra mae'r Sector Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru yn cynnwys y chwe Awdurdod Lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam), Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, CHThGC a HGC, GIG Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae gan Ogledd Cymru 687,800 o bobl gydag incwm cartref gwario gros y pen o £15,622 (85% o gyfartaledd Cymru). Mae'n cynnwys cyfran uchel o drigolion oedrannus. Gall hyn fod oherwydd pobl yn symud i'r ardal i ymddeol. Ceir hefyd rif net o gymudwyr yn gweithio tu hwnt i'r rhanbarth yn ardaloedd Caer, Glannau Mersi a Manceinion.

Busnesau bach maint micro (busnes sy'n cyflogi rhwng 0 a 9 o bobl) yw asgwrn cefn economi Gogledd Cymru. Yn 2015 roedd 58,100 o fentrau ar waith ledled Gogledd Cymru. Roedd 94% yn fusnesau maint micro gyda gweithwyr o'r rhain yn cyfrif am 35% o gyflogaeth y sector preifat o fewn Gogledd Cymru.

**Y Weledigaeth** – Anela CHThGC a HGC arwain Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru i groesawu Gwerth Cymdeithasol a chreu economi leol well a chadarnach. Roedd hyn yn creu twf economaidd, swyddi a chyfleoedd i bobl leol.

**Y Polisi** – Gosod y polisi Gwerth Cymdeithasol hwn yw rhan gyntaf ein taith. Anela'r polisi arddangos sut wnaiff CHThGC a HGC yn defnyddio cynllun Gwerth Cymdeithasol Cymru © i weithredu Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Anela weld sut wnaiff CHThGC a HGC gyflwyno gwerth cymdeithasol drwy eu gweithgarwch comisiynu a chaffael a gosod ein blaenoriaethau o ran gwerth cymdeithasol.

### *Gwerth Cymdeithasol, CHThGC a HGC*

Mae ein hagwedd Gwerth Cymdeithasol wedi bod yn seiliedig ar gynorthwyo blaenoriaethau Sefydliadol presennol. Mae ein "Fframwaith Canlyniadau Gwerth Cymdeithasol" yn trosi'r blaenoriaethau hynny i ddangosyddion Gwerth Cymdeithasol (gweler y tabl isod). Rydym yn

| SOCIAL | ECONOMIC | ENVIRONMENTAL | CULTURAL |
|---|---|---|---|
| CREATE SUSTAINABLE AND SAFER COMMUNITIES | HELP BUILD A STRONGER N.WALES ECONOMY | SUSTAINABLE CONSUMPTION AND REDUCED USAGE | CREATE A VIBRANT AND RESPONSIBLE N. WALES |
| Provide Health, Wellbeing and Support Packages | Support Local Business and spend money locally | Enhancing the environment | Help to create a Thriving Welsh Language |
| Work better with communities, people and each other (Well-being of Future Generations Act ) | Create Jobs, Apprenticeships and Training opportunities within the local community | Reduce Energy Consumption and C02 emissions | Help to create a vibrant Welsh Culture and Heritage |
| Build capacity and support for the Third Sector (inc the voluntary and community sector) | Reduce In-equality, raise Living standards and work towards paying a Living Wage | Increase Sustainable and Greener Consumption and Production | Promote Ethical Trading and minimise instances of Modern Slavery |

gwahodd cynigion arloesol gan gyflenwyr hen a newydd sy'n manylu sut ellir cyflwyno gwasanaeth gan gynorthwyo cyflwyno'r blaenoriaethu hyn ar yr un pryd gan gyflwyno'r blaenoriaethau hyn.

## Cyd-destun a Methodoleg

### *Cyd-destun*

Mae sefydliadau'r Sector Cyhoeddus trwy Gymru wedi wynebu lefelau toriadau mewn cyllidebau heb ei debyg. Mae wedi'i herio gyda gwneud arbedion effeithlonrwydd a chyflwyno gwasanaethau ar yr un pryd o dan bwysau cynyddol ar adnoddau. Rydym hefyd wedi gweld enciliad sylweddol ar adnoddau lleol a ddefnyddiwyd yn flaenorol i ymgymryd â gweithgareddau adfywio a thrin heriau cymdeithasol.

Mae hyn yn rhoi cyfle i gomisiynu a chaffael i nid yn unig fod y prif gyfrwng a ffyrdd o wneud arbedion ond hefyd gwthiad i yrru cyflwyno Gwerth Cymdeithasol ar ffurf canlyniadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Er mwyn hwyluso cyflwyniad, mae HGC a SCHTh wedi mabwysiadu model Gwerth Cymdeithasol Cymru © ac wedi datblygu Fframwaith Polisi, Siarter a Chanlyniadau i ffurfio llwyfan cyflwyno.

Mae'r cynllun yn amgyffred Amcanion y Cynllun Heddlu a Throsedd, Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Bydd yn ffurfio rhan o unrhyw werthusiad gwerth am arian cynigion cyflenwyr a darparwyr.

Mae'r model yn rhoi cyfle i Sefydliadau ddatblygu agweddau cyffredin i werth cymdeithasol drwy bolisi, blaenoriaethau, prosesau a gwneud penderfyniadau o fewn caffael cyson.

Mae monitro ac adrodd ar gyflwyno gwirioneddol Gwerth Cymdeithasol drwy Reoli Contractau a Pherfformiad Cyflenwyr yn anghyson ledled Sefydliadau. Fel rhan o'r model Gwerth Cymdeithasol Cymru mae agwedd gyffredinol o hwn wedi'i ddatblygu. Yn 2017, mabwysiadodd SCHTh Fframwaith Gwerth Cymdeithasol Gwerth Cymdeithasol Cymru. Mae'r Fframwaith yn darparu'r agwedd gyffredin ar gyfer ystyried gwerth cymdeithasol mewn comisiynu a chaffael gweithgarwch wrth amgyffred canlyniadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

### *Methodoleg*

Ceisiodd y gwaith a gynhaliwyd i greu'r adroddiad hwn sefydlu safle sylfaenol ar gyfer HGC a SCHTh drwy ymgymryd sawl gweithgarwch methodolegol.

Casglwyd data drwy ddwy sianel:

#### Dadansoddiad data'r Gadwyn Gyflenwi

Gwnaethom ymgymryd â dadansoddiad data o'r gadwyn gyflenwi ar gyfer HGC a SCHTh o Adroddiad Cyflenwyr Heddlu Gogledd Cymru 2016/17. Edrychodd y dadansoddiad ar y ddaearyddiaeth a lefelau gwariant o fewn y gadwyn gyflenwi.

#### Arolwg y Gadwyn Gyflenwi


Gwnaethom ymgymryd â dadansoddiad o'r gadwyn gyflenwi o'r 25 cyflenwyr uchaf (yn ôl gwerth). Gyrrwyd yr arolwg yn electroneg at gyfeiriadau e-bost ac roedd yn ffocysu ar ymddygiad cyflenwyr ledled ystod o ddangosyddion. Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys gwybodaeth feintiol ac ansoddol.


## Dadansoddiad Gwariant a Chyflenwyr CHThGC a HGC

### *Lle gwariwyd yr arian*

Rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017 gwariodd SCHThGC a HGC dros £29 miliwn o bunnoedd ar nwyddau a gwasanaethau, gyda thros £3.2 miliwn yn cael ei wario ledled Cymru (11%), a thros £7.4 miliwn (25%) yn rhanbarthau gerllaw Cymru a Gogledd Orllewin Cymru gan gynorthwyo cymunedau lleol, yr economi a chreu swyddi.


| **GWARIANT** | | |
|---|---|---|
| **ARDAL** | **%** | **£** |
| CYFEIRIAD ANHYSBYS | 0% | £4,265.80 |
| EWROP - Arall | 0% | £29,958.93 |
| IWERDDON - (Gogledd a De) | 0% | £7,753.13 |
| EAST ANGLIA | 0% | £94,812.09 |
| LLUNDAIN GANOLOG | 16% | £4,798,698.15 |
| CANOLBARTH LLOEGR - Dwyrain | 5% | £1,469,198.63 |
| CANOLBARTH LLOEGR - Gorllewin | 6% | £1,789,386.42 |
| GOGLEDD DDWYRAIN | 2% | £701,339.83 |
| GOGLEDD ORLLEWIN | 14% | £4,117,879.23 |
| YR ALBAN | 0% | £73,641.30 |
| DE DDWYRAIN | 29% | £8,539,354.83 |
| DE ORLLEWIN | 8% | £2,430,749.83 |
| UDA | 0% | £745.40 |
| CYMRU | 11% | £3,299,045.94 |
| SWYDD EFROG | 7% | £1,983,817.04 |
| **Cyfanswm** | | **£29,340,646.55** |








## Gwariwyd £ 3.2M yng Nghymru gan gyfrannu'n uniongyrchol i economi Cymru

| GWARIANT GYDA SEFYDLIADAU CYMRU | | |
|---|---|---|
| **Rhanbarth** | **%** | **£** |
| Ynys Môn | 5.5% | £181,416 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1.2% | £41,042 |
| Caerffili | 1.8% | £59,404 |
| Caerdydd | 6.0% | £198,943 |
| Sir Gaerfyrddin | 1.4% | £47,338 |
| Ceredigion | 0.1% | £3,077 |
| Conwy | 34.7% | £1,144,581 |
| Sir Ddinbych | 5.7% | £186,813 |
| Sir y Fflint | 7.5% | £246,599 |
| Gwynedd | 5.4% | £179,307 |
| Sir Fynwy | 0.0% | £173 |
| Castell Nedd Port Talbot | 0.1% | £1,789 |
| Casnewydd | 2.7% | £89,569 |
| Powys | 0.1% | £1,743 |
| Rhondda Cynon Taf | 0.1% | £1,895 |
| Abertawe | 21.2% | £699,648 |
| Bro Morgannwg | 1.9% | £61,732 |
| Wrecsam | 4.7% | £153,977 |
| **Cyfanswm** | | **£3,299,046** |




| GWARIANT CYMRU'N RHANBARTHOL | | |
|---|---|---|
| CYMRU - Canolbarth | 0.1% | £4,820 |
| CYMRU - Gogledd | 63.4% | £2,092,694 |
| CYMRU - De | 36.4% | £1,201,532 |
| **Cyfanswm** | | **£3,299,046** |




## *Cyflenwyr a Darparwyr*


Mae CHThGC a HGC wedi defnyddio dros 1,000 o gyflenwyr yn ystod 2016/17 gyda 37% yn dod o Gymru a 52% o ranbarthau ehangach Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr.

| **CYFLENWYR A DARPARWYR** | | |
|---|---|---|
| **ARDAL** | **%** | **Nifer** |
| CYFEIRIAD ANHYSBYS | 2% | 23 |
| EWROP - Arall | 0% | 4 |
| IWERDDON - (Gogledd a De) | 1% | 19 |
| EAST ANGLIA | 8% | 108 |
| LLUNDAIN GANOLOG | 5% | 75 |
| CANOLBARTH LLOEGR - Dwyrain | 8% | 105 |
| CANOLBARTH LLOEGR - Gorllewin | 0% | 6 |
| GOGLEDD DDWYRAIN | 1% | 13 |
| GOGLEDD ORLLEWIN | 15% | 208 |
| YR ALBAN | 2% | 25 |
| DE DDWYRAIN | 12% | 163 |
| DE ORLLEWIN | 4% | 61 |
| UDA | 0% | 2 |
| CYMRU | 37% | 514 |
| SWYDD EFROG | 5% | 65 |
| **Cyfanswm** | | **1391** |




Roedd 98% yn sefydliadau trydydd parti. Roedd 82% o'r sefydliadau yn fusnesau yn darparu nwyddau neu wasanaethau a oedd yn cyfateb i 99.5% o'r gwariant. Roedd 30% o'r 82% o'r cyflenwyr o Gymru.


Mae sefydliadau lleol yn darparu llafur lleol ac yn deall anghenion a dynameg y cymunedau lleol. Drwy gynorthwyo'r sefydliadau hyn, rydym yn cynorthwyo'r economi leol.





| Category | No | % |
|---|---|---|
| Local Authorities | 10 | 1% |
| NHS | 1 | 0% |
| Other Government Departments excl Home Office | 4 | 0% |
| Other Police Bodies | 3 | 0% |
| Private Finance Initiative | 1 | 0% |
| Third Party | 1367 | 98% |
| University | 5 | 0% |
| **Grand Total** | **1391** | |


***Drwy gynorthwyo cyflenwyr Cymreig, mae CHThGC a HGC yn arddangos eu hymroddiad i Werth Cymdeithasol drwy fuddsoddi mewn cymunedau Cymreig.***

| SEFYDLIADAU CYMREIG YN ÔL RHANBARTH | | |
|---|---|---|
| **Rhanbarth** | **%** | **No** |
| Ynys Môn | 8.0% | 41 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0.6% | 3 |
| Caerffili | 0.6% | 3 |
| Caerdydd | 1.9% | 10 |
| Sir Gaerfyrddin | 0.6% | 3 |
| Ceredigion | 0.6% | 3 |
| Conwy | 27.0% | 139 |
| Sir Ddinbych | 9.9% | 51 |
| Sir y Fflint | 14.4% | 74 |
| Gwynedd | 20.0% | 103 |
| Sir Fynwy | 0.4% | 2 |
| Castell Nedd Port Talbot | 0.2% | 1 |
| Casnewydd | 0.8% | 4 |
| Powys | 1.2% | 6 |
| Rhondda Cynon Taf | 0.2% | 1 |
| Abertawe | 1.0% | 5 |



| | | |
|---|---|---|
| Bro Morgannwg | 0.8% | 4 |
| Wrecsam | 11.9% | 61 |
| **Cyfanswm** | | **514** |

## *Gwariant gyda 50 Uchaf Sefydliadau Cymru yn 2016/17*


| Supplier | Spend | | Region | Sub Region |
|---|---|---|---|---|
| DAWNUS CONSTRUCTION HOLDINGS LTD | £ | 652,705 | Swansea | WALES - South |
| FRED WESTON ELECTRICAL | £ | 197,192 | Conwy | WALES - North |
| SLATERS | £ | 114,500 | Conwy | WALES - North |
| WELSH WATER | £ | 84,218 | Cardiff | WALES - South |
| SEQUENCE LIMITED | £ | 72,917 | Cardiff | WALES - South |
| MOSTYN ESTATES LTD | £ | 63,180 | Conwy | WALES - North |
| L.D.H BUILDING CONTRACTORS LTD | £ | 54,507 | Conwy | WALES - North |
| CRASH DAMAGE LIMITED | £ | 53,470 | Conwy | WALES - North |
| GREENGRASS SERVICES LTD | £ | 51,794 | Conwy | WALES - North |
| MPH CONSTRUCTION LTD | £ | 50,833 | Flintshire | WALES - North |
| DOMESTIC ABUSE SAFETY UNIT | £ | 50,796 | Flintshire | WALES - North |
| R ROBERTS & SON | £ | 49,222 | Conwy | WALES - North |
| ZURICH | £ | 48,749 | Conwy | WALES - North |
| WORK PANEL LIMITED | £ | 45,740 | Conwy | WALES - North |
| HAFAN CYMRU | £ | 45,500 | Carmarthenshire | WALES - South |
| CHANDLER KBS | £ | 45,417 | Vale of Glamorgan | WALES - South |
| W R PETERS LTD | £ | 44,173 | Anglesey | WALES - North |
| ABERCONWY CAR & VAN HIRE | £ | 40,724 | Conwy | WALES - North |
| OPINION RESEARCH SERVICES | £ | 40,690 | Swansea | WALES - South |
| BOF GROUP LIMITED | £ | 39,713 | Bridgend | WALES - South |
| PATTINSON & BREWER | £ | 39,301 | Conwy | WALES - North |
| DECON'S (DECONTAMINATION & HYGIENE SERVICE) | £ | 37,037 | Flintshire | WALES - North |
| DOMESTIC ABUSE SERVICES | £ | 36,973 | Gwynedd | WALES - North |
| NORTH WALES FENCING | £ | 36,163 | Gwynedd | WALES - North |
| BAWSO TRAINING SERVICES | £ | 35,000 | Cardiff | WALES - South |
| LLANDUDNO BAY HOTEL | £ | 32,926 | Conwy | WALES - North |
| CAIS LTD | £ | 31,359 | Conwy | WALES - North |
| CAER HEALTH SERVICES | £ | 30,205 | Caerphilly | WALES - South |
| W R DAVIES CAR DEALERS | £ | 29,142 | Anglesey | WALES - North |
| JAMES CARROLL BUILDERS & CONTRACTORS | £ | 28,791 | Denbighshire | WALES - North |
| CEIDIOG | £ | 27,229 | Denbighshire | WALES - North |
| COLEG CAMBRIA | £ | 27,165 | Wrexham | WALES - North |
| CAPITA PROPERTY & INFRASTRUCTURE LTD | £ | 24,998 | Conwy | WALES - North |
| ANGLESEY LOCKSMITHS | £ | 24,659 | Anglesey | WALES - North |
| PETER MOSS LTD | £ | 23,332 | Flintshire | WALES - North |
| FLOORWISE CONTRACTS | £ | 22,761 | Conwy | WALES - North |
| PHS GROUP PLC | £ | 22,681 | Caerphilly | WALES - South |
| KENNEDY ELECTRICAL LTD | £ | 22,296 | Anglesey | WALES - North |
| DPP Law Limited | £ | 22,236 | Conwy | WALES - North |
| BARTON AND NICHOLS LIMITED | £ | 18,937 | Anglesey | WALES - North |
| HALLIWELL JONES (NORTH WALES) LTD | £ | 17,405 | Conwy | WALES - North |
| A & B AIR SYSTEMS | £ | 16,086 | Wrexham | WALES - North |
| MICROCOMPUTER WORKSHOPS LTD | £ | 15,369 | Wrexham | WALES - North |
| LOOKERS DEESIDE | £ | 15,049 | Flintshire | WALES - North |
| WOODS MOTORCYCLES | £ | 14,021 | Denbighshire | WALES - North |
| CORPORATE FOOD COMPANY LIMITED | £ | 13,267 | Flintshire | WALES - North |
| RYBROOK CARS LIMITED | £ | 13,102 | Conwy | WALES - North |
| DANIEL BROOKS LTD | £ | 12,650 | Gwynedd | WALES - North |
| DEE VALLEY WATER | £ | 11,852 | Wrexham | WALES - North |
| LAWRAY ARCHITECTS LTD | £ | 11,434 | Wrexham | WALES - North |

## Arolwg y Gadwyn Gyflenwi

Gwnaethom ddatblygu'r model Gwerth Cymdeithasol yn 2017. Yn ystod 2018, bydd Gwerth Cymdeithasol a Chyfalaf Cymdeithasol yn cael ei ystyried mewn mwy a mwy o dendrau. Bydd ei gynhwysiad fel elfen sgorio gwerthuso cynigion yn sicrhau fod cyflenwyr yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau i Ogledd Cymru. Gobeithiwn fydd hyn yn arwain at nifer cynyddol o ymatebion penodol ac wedi'u teilwra.

### *Edrych yn ôl ar 2017*

Cyn i'r agwedd dendro newydd gael ei mabwysiadu, mae gan nifer o sefydliadau o fewn rhanbarth Gogledd Cymru ymroddiad real a dealladwy at werth cymdeithasol. Maent yn mynd o fentrau bach a chanolig i sefydliadau mawr ledled y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Ond maent i gyd yn ymroddedig i gyflwyno gwerth a llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol fel rhan o ddiwylliant eu busnes a'u pobl.




Gwnaethom ofyn i gwmnïau o Ogledd Cymru rannu eu profiadau o gyflwyno gwerth cymdeithasol. O'r cwmnïau wnaeth ymateb, roedd 40% yn fentrau bach a chanolig, roedd 80% o Gymru, gyda 60% yn dod o Ogledd Cymru.

Gweithio gyda sefydliadau o'r un anian

Roedd 40% o'r sefydliad a ymatebodd i'r arolwg yn barod yn cyflwyno rhyw fath o werth cymdeithasol a oedd yn cynnwys

- ymgysylltiad cymunedol gyda Heddlu Gogledd Cymru ar brosiectau cymunedol
- noddi chwaraeon cymunedol a grwpiau ysgol
- rhoi deunyddiau adeiladu dros ben i brosiectau cymunedol.

**Rhai ffeithiau a ffigyrau o'u hymatebion oedd**

- Elate Construction - 85% o wariant gyda chyflenwyr ac isgontractwyr o fewn Gogledd Cymru, maent yn cyflogi 100% o'u gweithlu o Ogledd Cymru, maent yn talu Cyflog Byw i 100% o'u staff ac wedi creu 1 swydd ac un 1 brentisiaeth o fewn y 12 mis diwethaf.

- Gwariodd CGI dros £100,000 gyda chyflenwyr ac isgontractwyr o fewn Gogledd Cymru a thros £200,000 gyda mentrau bach a chanolog o fewn Gogledd Cymru.

## Atodiad 1 – Astudiaethau Achos Gwerth Cymdeithasol

Wrth i ni ddatblygu'r model Gwerth Cymdeithasol yn 2018, ystyrir Gwerth Cymdeithasol a Chyfalaf Cymdeithasol mewn mwy a mwy o dendrau. Bydd ei gynhwysiad fel elfen sgorio gwerthuso cynigion yn sicrhau fod cyflenwyr yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau i Ogledd Cymru. Gobeithiwn fydd hyn yn arwain at nifer cynyddol o ymatebion penodol ac wedi'u teilwra.

Yn ystod 2016/17 rydym wedi gweld tystiolaeth o'r arian rydym wedi'i wario. Mae cyflenwyr wedi bod yn cyfrannu at greu a chynnal swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi. Mae'r astudiaethau achos canlynol yn tynnu sylw at rywfaint o'r arfer gorau a nodwyd dros y 12 mis diwethaf.

### ASTUDIAETH ACHOS 1

**Cyfleuster Rheoli Dalfa'r Dwyrain yn Wrecsam – Astudiaeth Achos Gwerth Cymdeithasol Dros Dro**

Lleoliad: Wrecsam, Gogledd Cymru
Gwerth: £17m
Hyd Contract: 70 wythnos
Cleient: Heddlu Gogledd Cymru, drwy Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru (NWCF)

Mae Galliford Try Buildings North West hanner ffordd rwy adeiladu pencadlys i Heddlu Gogledd Cymru. Bydd yr adeilad yn cynnwys 32 o gyfleusterau celloedd dalfa, 4 o gelloedd dal, swyddfeydd dalfa, man cyfweld, doc faniau, lle i staff ategol a swyddfeydd a swît ffitrwydd/campfa. Mae'r adeilad yn ffrâm goncrid ac wedi'i godi ar safle gyda gwerth ecolegol uchel, mewn ardal wledig o Wrecsam.

Fel rhan o'r datblygiad contract, cytunwyd ar dargedau gwerth cymdeithasol gyda'r cleient. Maent ddwy ran o dair ar eu ffordd drwy'r prosiect ac mae llawer o'r targedau wedi'u pasio.

Mae'r llwyddiant hwn wedi'i gyflawni drwy gydweithio agos yn y cyfnodau cynnar iawn gyda phartneriaid cadwyn gyflenwi lleol. Denodd digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr 75 o bobl, gyda 74% o benodiadau gyda chwmnïau o Gymru.

Rydym wedi ymuno ag Ymddiriedolaeth y Tywysog a Chymunedau dros Waith i gynorthwyo eu rhaglenni cyflogadwyedd. Mae mynd i bartneriaeth gyda Choleg Cambria a Phrifysgol Glyndwr wedi'n galluogi i gynnig nifer

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed Prosiect | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|
| Gwariant terfynol a ragwelir o fewn 30 milltir, ar gyfer pecynnau gosodedig | 70% | 71% (56% o nifer o becynnau) |
| Lleoliad Gwaith (14-16 oed) | 0 | 3 |
| Lleoliad Gwaith (dros 16 oed) | 7 | 6 |
| Gweithgareddau Cwricwlwm Adeiladu | 3 | 15 |
| Graddedigion a recriwtiwyd | 1 | 4 |
| Prentisiaid yn dechrau | 3 | 7 |
| Prentisiaethau presennol | 3 | 7 |
| Prentisiaeth wedi'i chwblhau | 1 | 0 |
| Cyfleoedd cyflogaeth a grëwyd | 4 | 16 |
| Dechreuwyr NVQ i isgontractwyr | 7 | 5 |
| Rhai wedi cwblhau NVQ i isgontractwyr | 5 | 3 |
| Cynlluniau Hyfforddi i isgontractwyr | 4 | 5 |
| Cyrsiau hyfforddiant isgontractwyr | 11 | 7 |
| Gwastraff adeiladu yn cael ei gyfeirio o'r gladdfa sbwriel | Amherthnasol | 98.8% |

o ymgysylltiadau gyda myfyrwyr adeiladu, gan gynnig lleoliadau gwaith a DPP staff.

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio'n agos â Groundwork a Chyfiawnder Ieuenctid i ymgysylltu ag unigolion lleol a chyflwyno mentrau sydd o fudd cymunedol.

## ASTUDIAETH ACHOS 2

**CGI a Heddlu Gogledd Cymru – Partneriaid mewn Trawsnewidiad**

Ymgysylltiad Cymunedol yng Ngogledd Cymru

Creu presenoldeb rhanbarthol positif ac adeiladol sy'n cynorthwyo amcanion ein cwsmeriaid yn y rhanbarth, wrth roi llwyfan cadarn i CGI ymestyn yn allanol o ran cyflwyno gwasanaeth i gymunedau lleol, Cymru ac ehangach.

S

- Llysgennad Cymunedol i Ogledd Cymru mewn grym ac ar waith.
- Cytuno ar nodau, amcanion a chyfrifoldebau wedi'u cytuno ym misoedd Gorffennaf/Awst 2015.
- Rhaglen o weithgareddau ar y gweill.

O/S

- Trafodaeth bellach gyda thîm PACT a phrosesu fel cynllun peilot, gan bwyso a mesur perthynas SCCH/lleol.
- Gwaith yn parhau i sefydlu a datblygu cysylltiadau gyda cholegau a phrifysgolion lleol.

A

- Gwaith yn parhau i ddefnyddio cysylltiadau cyhoeddus mewnol ac allanol lle mae angen.
- Mae CGI wedi mynychu digwyddiad recriwtio deuddydd yn Llandudno.
- Presenoldeb sylweddol yn Eisteddfod y Fflint gan weithio gyda'r tîm Troseddau Seiber dros gyfnod o 5 diwrnod.




B

- Creu brand 'cyber made simple' / 'seiber mwy syml', ffilm a ariannwyd gan CGI gyda chymorth yr Uned Troseddau Seiber, a chael ei hyrwyddo drwy Gymru (a'r DU) fel rhaglen ymwybyddiaeth ddwyieithog.
- Arbrofi cymorth elusennol gyda PACT.
- Gwaith ar y gweill yn sefydlu cysylltiadau gydag ysgolion a chymunedau busnes.

- Cardiau busnes ac arwyddon yn swyddfa CGI yn awr yn gwbl ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg) (tro cyntaf i CGI).

- Baneri ac arwyddion CGI Cymraeg ychwanegol wedi'u creu ar gyfer digwyddiadau a chyhoeddusrwydd (tro cyntaf eto i CGI).

W

- Adnoddau Cymraeg wedi'u darparu o fewn swyddfa Llanelwy, a dolenni defnyddiol wedi'u cylchredeg. Gwaith yn parhau...
- Defnyddio parthau .cymru a .wales, a chytuniad mewnol i fynd ati i gyfieithu cynnwys yn Gymraeg...i'w ddilyn. Bydd cynnwys eraill yn dilyn.

I/S

- Cyfnod cynnar trafodaeth gyda noddwr mawr i gynorthwyo seiber mwy syml.

## ASTUDIAETH ACHOS 3

**Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned (PACT) a CGI 2016/17**

Ers mis Hydref 2017 mae CGI wedi bod yn cynorthwyo PACT gyda'n Cronfa Grantiau Bach. Mae Cronfa Grantiau Bach PACT wedi'i hanelu at gynorthwyo Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu a Thimau Cymdogaethau Diogelach gyda grantiau sy'n eu cynorthwyo i ymgysylltu â grwpiau a gweithgareddau cymunedol lleol. Mae hyn yn cefnogi'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Mae grantiau hyd at £250 ar gael drwy'r Gronfa hon.

Mae ein Cronfa Grantiau Bach yn rhoi'r cyfle i SCCH ymgeisio am nawdd drwy broses eithaf syml ac mae wedi bodoli ers 15 mlynedd. Dros y cyfnod hwnnw mae wedi caniatáu PACT i fuddsoddi dros £200,000 mewn prosiectau gwerin gwlad sy'n cynorthwyo'r swyddogion hynny i ymgysylltu gyda'u cymunedau. Mae'r Gronfa'n parhau i fod yn un o'n llifoedd ariannu mwyaf poblogaidd ac a or-danysgrifir.

Yn gynharach eleni aeth PACT i drafodaethau gyda staff lleol yn CGI yn Llanelwy i weld sut gallent gynorthwyo'r gronfa hon i ychwanegu gwerth at ein gwaith.

Arweiniodd y trafodaethau hyn at gytundeb o roi £10,000 y flwyddyn a fydd yn rhoi'r cyfle i PACT ymestyn cyrraedd y gronfa hon. Mae hyn yn hynod berthnasol o ystyried recriwtio presennol SCCH.

Daeth y cytundeb newydd i rym ym mis Hydref 2017. Hyd yma, mae CGI wedi cefnogi naw cynnig ychwanegol gan ddod i'r cyfanswm o £2,700.00.

O dan arweiniad Nick Hewitt, Uwch Reolwr Cyflwyno Gwasanaeth, yn Llanelwy, mae CGI wedi sefydlu panel asesu ceisiadau lleol sy'n penderfynu ar y cynnig yr hoffent ei gefnogi. Mae hyn yn benodol o werthfawr i PACT gan ei fod yn rhoi cyswllt lleol uniongyrchol i ni gyda CGI. Mae'n caniatáu adolygiadau lleol i ddigwydd yn hawdd. Yn bwysicach, mae hefyd yn golygu fod y tîm CGI yn Llanelwy â gwybodaeth fwy manwl am faterion lleol yng ngogledd Cymru. Gallent wneud eu penderfyniadau mewn modd priodol.

Yn dilyn adolygiad diweddar ar gynnydd, ein bwriad yw cynnwys tîm CGI yn Llanelwy ar rai ymweliadau i ddetholiad o'r prosiectau maent wedi'u cynorthwyo drwy'r cytundeb newydd hwn.

Rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu'r berthynas hon dros y misoedd i ddod er mwyn sicrhau fod ein partneriaeth yn dod â budd i bawb – PACT, CGI ac yn bwysicaf i SCCH lleol a'u cymunedau.

Yn ogystal â hyn, mae CGI wedi cefnogi'r Gwobrau PDP Heddlu Gogledd Cymru cyntaf yn 2017 (Gwobrau Partneriaethau Datrys Problemau) fel y prif noddwr ar gyfer y digwyddiad. Cynrychiolwyd CGI ar y panel beirniadu gan Tim Roberts-Holmes, a ddaeth i'r Gwobrau diwrnod o hyd ynghyd â Nick Hewitt. O ganlyniad, ymwelodd Nick a rhai o'i gydweithwyr â llawer o'r prosiectau buddugol i weld eu gwaith o lygad y ffynnon.

Dave Evans Rheolwr Prosiect PACT

**ASTUDIAETH ACHOS 4**

Interserve
Ingenuity at work

## GWERTH YN FWY NAG ARIAN

*Mae cynaliadwyedd wrth galon sut y gwnawn fusnes. Credwn fod llwyddiant busnes tymor hir yn cael ei danategu gan ystod ehangach o ffactorau nag ond perfformiad ariannol yn unig. Rydym yn canolbwyntio ar gyfalaf anariannol – cymdeithasol, gwybodaeth a naturiol.*

### BETH YDYM WEDI'I WNEUD?

Edrychwn ar yr holl ffyrdd yr ydym yn creu gwerth drwy ein gweithgareddau. Mae hyn yn cynnwys creu gwerth cymdeithasol yn y cymunedau lle rydym yn byw, cydnabod sut ydym yn creu sgiliau unigolion a rhannu gwybodaeth ymysg timau a thrwy gydweithio. Rydym hefyd yn edrych ar sut ydym yn gwarchod a gwella'r amgylchfyd naturiol.

**Creu cyfalaf cymdeithasol**

Mae ein cyfraniad i gymdeithas yn cynnwys creu cyflogaeth leol, cynorthwyo'r economi leol drwy ein cadwyn gyflenwi a gwella bywydau pobl a weithiwn â nhw. Rydym yn annog ein pobl i feddwl am y ffordd gallent ddod â gwerth ychwanegol ar y cyd â chyflawni o ddydd i ddydd, a chydnabod ymdrechion anhygoel ein pobl i fynd yr ail filltir i gynorthwyo cymunedau lleol. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet a chyrff comisiynu amrywiol Llywodraeth y DU i ddod â gwell dealltwriaeth a defnydd o'r Ddeddf Gwerth Cymdeithasol i yrru manteision cymdeithasol o'u contractau sydd newydd eu caffael. Mae hyn yn ei dro wedi'n harwain i fod yn brif esbonyddion caffael cyfrifol gan ddefnyddio mentrau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol yn ein cadwyn gyflenwi, i'n cyfranogiad yn ymgyrch 'Ban the Box' Busnes yn y Gymuned i annog cyflogi cyn-droseddwyr a Her Buy Social Social Enterprise UK.

### DOD Â PHOBL AT EI GILYDD I SYMUD SYNIADAU YMLAEN

Rydym yn cynnal Cynhadledd Gwerth Cymdeithasol flynyddol. Wedi'i chyd-greu gyda Social Enterprise UK, a chefnogaeth Busnes yn y Gymuned, mae ein digwyddiad blynyddol yn dod ag arweinwyr at ei gilydd o ledled sectorau tai, gofal iechyd, busnes, elusennau a mentrau cymdeithasol i rannu arfer, mewnwelediad, a dysgu o ran holl bethau sy'n berthnasol i werth cymdeithasol. Mae'r gynhadledd yn anelu i rannu arfer gorau, ysbrydoli syniadau ac arloesedd a chreu rhwydweithiau a phartneriaethau traws-sector. Bu'r Gwobrau Gwerth Cymdeithasol yn y gynhadledd hefyd. Cawsant eu sefydlu gan Swyddfa'r Cabinet ac fe gefnogir hwy gan KMPG, a wnaeth gydnabod sefydliadau sydd wedi rhoi gwerth cymdeithasol wrth galon beth a wnânt.

**ARDAL LEOL –** ***Mae safle Pencadlys Rhanbarthol Heddlu Gogledd Cymru a'r ardaloedd gyferbyn wedi'u lleoli ym Mharc Busnes Llanelwy sy'n brif leoliad i fadfallod dŵr cribog. Ein cyfrifoldeb ni yw cynnal cynefin iach iddynt ffynnu. Mae hyn yn cynnwys rheoli'r pwll magu ac ardaloedd coetir o amgylch y pwll sy'n gofyn i ni gyflogi cwmni rheoli tiroedd ecolegol arbenigol rydym yn gweithio'n agos â nhw. Mae rheolwr safle Interserve yn mynychu'r cyfarfodydd rheoli cyfnodol lle mae cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru a sefydliad cadwraeth arall hefyd yn bresennol. Rydym hefyd yn rheoli ardaloedd o'r tiroedd fel dolydd blodau gwych i annog ystod amrywiol o blanhigion ac anifeiliaid.***